YSTADEGAU SWYDDOGOL

Trefniadau mynediad ar gyfer TGAU, Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2021/22

18 Tachwedd 2022

Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer y trefniadau mynediad a gymeradwywyd ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22. Mae'r datganiad ystadegol hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am bapurau wedi'u haddasu ar gyfer cyfres haf 2022. Nid yw data trefniadau mynediad ar ôl 2018/19 ar gael ar hyn o bryd felly bydd y fersiwn hon o'r datganiad ond yn cynnwys papurau wedi'u haddasu. Bydd y datganiad cyflawn yn cael ei ailgyhoeddi pan fydd y data trefniadau mynediad ar gael.

Oherwydd bod arholiadau'r haf wedi'u canslo yn 2020 a 2021 o ganlyniad i bandemig COVID-19, nid oes data am bapurau wedi'u haddasu ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 na haf 2021 ac mae'r blynyddoedd hyn wedi'u heithrio o'r datganiad.

Uchafbwyntiau

Ffigur 1: Nifer y papurau wedi'u haddasu



Ffynhonnell: Rhwng 2018 a 2022 - Cyrff Dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

Cafodd 7,435 o bapurau wedi'u haddasu eu cynhyrchu ar gyfer cyfres arholiadau haf 2022, cynnydd o 20.8% o'i gymharu â haf 2019.

Dolenni Cyflym Ynglŷn â'r datganiad hwn | Uchafbwyntiau | Papurau wedi'u haddasu

Ystadegydd John Fuery 01633 373250 ystadegau@cymwysteraucymru.org
Ymholiadau gan y cyfryngau 01633 373 222 cyfryngau@cymwysteraucymru.org

Papurau wedi'u haddasu

Mae ceisiadau am bapurau wedi'u haddasu yn cael eu gwneud gan ganolfannau cyn cyfres arholiadau benodol. Caiff papurau wedi'u haddasu eu paratoi ar gyfer myfyrwyr sydd ag amrywiaeth o namau ar eu golwg ac/neu anhwylderau deall iaith sylweddol i'w helpu i ddangos eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Faint o bapurau wedi'u haddasu sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru?

Ffigur 2: Nifer o bapurau wedi'u haddasu a gynhyrchwyd yng Nghymru

Cyfres haf 2014 i 2022



Ffynhonnell: Rhwng 2018 a 2022 - Cyrff Dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

Cynyddodd nifer y papurau wedi'u haddasu a gynhyrchwyd yng Nghymru 20.8% i 7,435 yn haf 2022 o gymharu â 2019. Mae hyn yn parhau'r duedd gyffredinol ar i fyny ers 2017.

Roedd y cynnydd yn 2022 yn bennaf oherwydd ceisiadau am bapurau cwestiynau electronig nad oedden nhw'n rhyngweithiol a phapurau testun trwm maint 18.

Ffigur 3: Papurau wedi'u haddasu a gyhoeddwyd fel canran o gyfanswm papurau

Cyfres haf 2014 i 2022



Ffynhonnell: Rhwng 2018 a 2022 - Cyrff Dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

Dim ond cyfran fach iawn, 0.8%, o'r 963,950 o bapurau a farciwyd ar gyfer arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru yw nifer y papurau wedi'u haddasu a gyhoeddwyd ar gyfer cyfres arholiadau haf 2022. Mae'r gyfran yn 2022 wedi cynyddu 0.2 pwynt canran ers 2019.

Beth yw'r fformatau mwyaf cyffredin ar gyfer papurau wedi'u haddasu?

Ffigur 4: Cyfran o bob math o bapur wedi'i addasu

Cyfres haf 2018 i 2022



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu

Fel yn haf 2019, papurau cwestiynau electronig nad oedden nhw'n rhyngweithiol oedd y math mwyaf cyffredin o bapur wedi'i addasu yn haf 2022, ac yna papurau testun trwm maint 18.

Mae'r categori "pob fformat arall" yn cynnwys papurau wedi'u haddasu sy'n cael eu defnyddio'n llai aml fel trawsgrifiadau o bapurau profion gwrando/fideo a braille.

Tabl 1: Nifer pob math o bapur wedi'i addasu, cyfres yr haf

Math o Bapur Wedi'i Addasu	2018	2019	2022	% Newid 2019 i 2022
Papurau testun trwm maint 18	1,340	1,425	1,985	39.1%
Papurau testun trwm maint 24	375	550	345	-37.2%
Iaith wedi'i haddasu	1,775	1,590	1,605	1.0%
Papura cwestiynau electronig nad ydyn nhw'n rhyngweithiol	1,220	1,875	2,960	58.0%
Pob fformat arall	270	720	540	-24.8%
Cyfanswm	**4,980**	**6,155**	**7,435**	**20.8%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu

Ffigur 5: Nifer y papurau wedi'u haddasu a gynhyrchwyd yn ôl math o bapur wedi'i addasu

Cyfres haf 2018 i 2022



Ffynhonnell: Rhwng 2018 a 2022 - Cyrff Dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

O gymharu â haf 2019, cynyddodd nifer y papurau cwestiynau electronig nad ydyn nhw'n rhyngweithiol a gynhyrchwyd yn haf 2022 58.0% i 2,960. Cynyddodd papurau testun trwm maint 18 a phapurau â'r iaith wedi'i haddasu hefyd. Gostyngodd nifer y papurau testun trwm maint 24 37.2%.

© (2022) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.